Tachwedd 2024

# Castle Green Homes Limited

# Dosbarthiad Tir Amaethyddol ac Adnoddau Pridd

ar

**Lôn Peulwys, Hen Golwyn**


**Beechwood Court,**
**Long Toll, Woodcote,**
**RG8 0RR**

**01491 684 233**
**www.reading-ag.com**

**1 CYFLWYNIAD ........................................................................................................1**

**2 Y SAFLE AC AMODAU HINSODDOL.........................................................................2**

**3 ANSAWDD Y TIR AMAETHYDDOL.........................................................................3**

**ATODIAD 1: DATA LABORDY...............................................................................6**

**ATODIAD 2: CRYNODEBAU PROFFIL PRIDD A CHYFRIFIADAU SYCHDER ..................................8**

**ATODIAD 3: DISGRIFIAD O'R TWLL A LLUNIAU O'R SAFLE...................................................13**

**FFIGWR RAC/10535/1: ARSYLWADAU…………………………………………………………………………….13**

**FFIGWR RAC/10535/2: DOSBARTHIAD TIR AMAETHYDDOL………………………………………………..14**

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Reading Agricultural Consultants Ltd (RAC) wedi cael cyfarwyddyd gan Castle Green Homes Limited i ymchwilio i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a'r adnoddau pridd ar dir ar Lôn Peulwys, Hen Golwyn drwy gyfrwng arolwg manwl o nodweddion y pridd a'r safle.

1.2 Mae'r canllawiau ar gyfer asesu ansawdd tir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr wedi ei nodi yng nghanllawiau a meini prawf diwygiedig y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol[1].

1.3 Caiff tir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr ei raddio rhwng 1 a 5, yn dibynnu ar i ba raddau mae nodweddion ffisegol neu gemegol yn arwain at gyfyngiadau hirdymor ar ddefnydd amaethyddol. Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar raddio yw'r hinsawdd, amodau'r safle a'r pridd sydd, ynghyd â'r ymadwaith rhyngddynt, yn ffurfio'r sail ar gyfer dosbarthu tir i un o'r pum gradd.

1.4 Mae tir Gradd 1 yn dir amaethyddol o ansawdd rhagorol gyda dim ond mân gyfyngiadau, neu ddim cyfyngiadau o gwbl, i ddefnydd amaethyddol. Mae Gradd 2 yn dir amaethyddol o ansawdd da iawn gyda mân gyfyngiadau sy'n effeithio ar gnydau, aredig neu gynaeafu. Mae gan dir Gradd 3 gyfyngiadau cymedrol sy'n effeithio ar y dewis o gnydau, amseru a'r math o aredig, cynaeafu neu lefel y cnwd, ac mae wedi ei isrannu yn Isradd 3a (tir o ansawdd da) ac Isradd 3b (tir o ansawdd cymedrol). Mae tir Gradd 4 yn dir amaethyddol o ansawdd gwael gyda chyfyngiadau dwys sy'n cyfyngu ar yr ystod o gnydau a/neu lefel y cnwd yn sylweddol. Mae tir Gradd 5 yn dir o ansawdd gwael, gyda chyfyngiadau dwys iawn sy'n cyfyngu'r defnydd i borfeydd parhaol neu bori garw.

1.5 Mae tir sydd wedi ei ddosbarthu fel Graddfeydd 1, 2 a 3a wedi ei ddiffinio ym mharagraff 3.58 Polisi Cynllunio Cymru[2] fel y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd.

1.6 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru[3]. Mae'r map wedi ei ddylunio ar grid 50m. Mae

---

[1] **Y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (1988).** *Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr Canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol* Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr: Meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol - Dosbarthiad Tir Amaethyddol 011

[2] **Llywodraeth Cymru (2024).** Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024 https://https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf

[3] **Llywodraeth Cymru (2024).** *MapDataCymru.* https://mapdata.llyw.cymru/maps/new#/

meini prawf gan gynnwys yr hinsawdd, llethr, gwlypter y pridd, sychder a chynnwys cerrig wedi eu hystyried a'u defnyddio i bennu y cyfyngiad mwyaf tebygol i ansawdd tir amaethyddol o fewn pob sgwâr grid. Mae'r map yn rhagweld bod y safle o ansawdd Gradd 2 yn bennaf yn y dwyrain, Isradd 3a yn y gorllewin, a band Gradd 4 yn y canol ac Isradd 3b rhyngddynt.

1.7 Fodd bynnag fel yr eglurwyd gan Gwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol[4], yr unig ffordd o bennu gradd amaethyddol tir yn gywir yw drwy arolwg tir manwl yn unol â'r canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol presennol. Mae'r arolwg hwn yn dilyn y fethodoleg a'r canllawiau a sefydlwyd ar gyfer cynnal arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

## 2 Y safle ac amodau hinsoddol

### Nodweddion cyffredinol, ffurf y tir a draenio

2.1 Mae'r safle'n ymestyn i oddeutu 15.2ha, ac mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn laswelltir amaethyddol. Mae'r safle'n ffinio â Lôn Peulwys i'r gogledd a'r gorllewin, tir amaethyddol arall i'r de, ac eiddo preswyl a choetir i'r dwyrain.

2.2 Mae'r topograffi wedi'i nodweddu gan lethr cymedrol i serth yn wynebu tua'r gorllewin. Mae'r uchder ar y safle rhwng 70m Uwchlaw'r Seilnod Ordnans yn y gorllewin a 150m Uwchlaw'r Seilnod Ordnans yn y dwyrain.

2.3 Nid yw DataMapCymru[3] yn dangos unrhyw berygl llifogydd sylweddol o ddŵr wyneb neu afonydd ar y safle.

### Amodau Amaeth-hinsoddol

2.4 Mae data amaeth-hinsoddol ar gyfer y safle wedi ei ryngosod o ddata pwynt grid 5km safonol y Swyddfa Dywydd sydd wedi ei osod ar uchder cynrychioliadol o 100m Uwchlaw'r Seilnod Ordnans ac fe'u gwelir yn Nhabl 1. Mae'r hinsawdd yn y safle yn wlyb ac yn weddol oer gyda diffygion lleithder cymedrol fach i gymedrol. Mae nifer Dyddiau Capasiti'r Cae yn fawr ac yn anffafriol ar gyfer darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith maes amaethyddol. Fodd bynnag nid oes yna unrhyw gyfyngiad hinsoddol hollbwysig i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

**Tabl 1:** Amodau amaeth-hinsoddol lleol

| Paramedr | Mesuriad |
|---|---|
| Cyfeirnod Grid | SH 87500 77700 |

[4] **Llywodraeth Cymru (2020).** *Dosbarthiad Tir Amaethyddol, Cwestiynau Cyffredin.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/agricultural-land-classification-frequently-asked-questions.pdf

| | |
|---|---|
| Uchder | 100m Uwchlaw'r Seilnod Ordnans |
| Glaw Blynyddol Cyfartalog | 818mm |
| Tymereddau Cronnol >0°C | 1,361 y dydd° |
| Dyddiau Capasiti'r Cae | 191 diwrnod |
| Diffyg Lleithder ar Gyfartaledd, gwenith | 88mm |
| Diffyg Lleithder ar Gyfartaledd, tatws | 74mm |

### Deunydd rhiant y pridd a'r math o bridd

2.5 Daeareg y creigwely sydd wedi ei fapio gan Arolwg Daearegol Prydain[5] yng ngorllewin y safle yw Ffurfiad Elwy sy'n cynnwys gwlâu a amharwyd o gerrig llaid lleidiog streipïog a thywodfaen. Mae Ffurfiad Ffernant wedi'i fapio yn y dwyrain ac yn cynnwys cerrig llaid coch, piws ac amryliw, lleidfaen a thywodfaen. Mae dyddodion arwynebol yn gorwedd ar y rhan fwyaf o'r creigwely, ar wahân i ar draws y llethrau mwyaf serth, ac yn cynnwys cymysgedd o ddeunyddiau heb eu sortio yn amrywio o glai i gerrig mawr.

2.6 Mae mapio pridd Arolwg Pridd Cymru a Lloegr[6] (graddfa 1:250,000) yn dangos safle Dinbych 1 yn y gorllewin a safle Dwyrain Keswick 3 yn y dwyrain. Mae'r ddau safle wedi'u nodweddu gan weadau priddgleiog a chleiog drwyddynt ac maent yn cael eu gwahaniaethu yn ôl math a chynnwys cerrig isbridd. Mae'r proffiliau pridd wedi'u draenio'n dda fel arfer, yn Nosbarth Gwlypter (WC) I[7].

## 3 Ansawdd y tir amaethyddol

### Dulliau arolwg pridd

3.1 Cafodd 15 proffil pridd eu harchwilio gan ddefnyddio taradr Edelman (Iseldiraidd) ar ddwyster arsylwi o un i bob hectar yn unol â'r argymhellion sefydledig ar gyfer arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Cafodd un twll arsylwi hefyd ei gloddio er mwyn archwilio strwythurau'r isbridd. Gellir gweld y lleoliadau arsylwi yn Ffigwr RAC/10535/1. Ym mhob pwynt arsylwi cafodd y nodweddion canlynol eu hasesu ar gyfer pob terfynlin pridd hyd at uchafswm o 120cm neu unrhyw haen anhreiddiadwy:

- gwead y pridd;

[5] **Arolwg Daeargeol Prydain (2024).** *Geology Viewer https://www.bgs.ac.uk/map-viewers/bgs-geology-viewer/*

[6] **Arolwg Pridd Cymru a Lloegr (1984).** *Priddoedd Cymru* (1:250,000), Taflen 2

[7] **Rudeforth et al (1984).** *Priddoedd a'u Defnydd yng Nghymru* Bwletin 11 Arolwg Pridd Cymru a Lloegr, Harpenden.

- cynnwys y garreg;
- lliw (gan gynnwys britho lleol);
- cysondeb;
- cyflwr strwythurol;
- carbonad rhydd; a
- dyfnder.

3.2 Cafodd un sampl o'r uwchbridd ei gyflwyno er mwyn i labordy benderfynu ar ddosbarthiad maint y gronynnau, pH, cynnwys mater organig a'r cynnwys maeth (P, K, Mg). Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad 1.

3.3 Cafodd Dosbarthiad Gwlypter y Pridd ei benderfynu o'r matrics lliw, presenoldeb neu absenoldeb brychni clai glas llwyd a melyn a'i ddyfnder a haenau o isbridd hydraidd araf sydd o leiaf 15cm o drwch mewn perthynas â nifer y Dyddiau Capasiti'r Cae yn y lleoliad.

3.4 Ymchwiliwyd i sychder pridd drwy gyfrif hafaliadau cydbwysedd lleithder (a roddwyd yn Atodiad 2). Caiff Dŵr Proffil sydd Ar Gael ei amcangyfrif o wead, natur garegog a dyfnder ac yna ei gymharu â diffyg lleithder a gyfrifwyd ar gyfer y cnydau safonol, gwenith a thatws. Mae'r Diffyg Lleithder yn swyddogaeth o anwedd-drydarthiad posibl a dŵr glaw. Gall graddio'r tir gael ei effeithio os yw'r Dŵr Proffil sydd Ar Gael yn annigonol i gydbwyso'r Diffyg Lleithder a bod sychder yn digwydd.

**Dosbarthiad tir amaethyddol a chyfyngiadau'r safle**

3.5 Mae asesiad o ansawdd y tir wedi ei gynnal yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Dosbarthiad Tir Amaethyddol[1]. Mae proffiliau pridd wedi eu disgrifio yn unol â Hodgson[8] sef y ffynhonnell gydnabyddedig ar gyfer disgrifio proffiliau a nodweddion pridd yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

3.6 Y prif gyfyngiadau i ansawdd tir amaethyddol yw gwlypter pridd ac ymarferoldeb, sydd wedi'u dylanwadu'n gryf gan amodau hinsoddol y safle, a graddiant y llethr. Caiff y safle ei ddosbarthu yng Ngradd 2 lle nad oes cyfyngiad o ran graddiant, ac Isradd 3b neu Radd 4 lle mae cyfyngiadau o ran graddiant.

---

[8] **Hodgson, J. M. (Gol.) (1997).** *Llawlyfr maes arolwg pridd.* Monograff Technegol Arolwg Pridd Rhif 5, Silsoe.

3.7 Mae'r uwchbridd yn briddglai canolig cyson ddwfn sydd gan amlaf yn frown tywyll neu frown (7.5YR3/3, 7.5YR3/4, 7.5YR4/3 neu 10YR4/3 yn siartiau lliw pridd Munsell[9]). Mae'r cynnwys carreg yn isel ar oddeutu 5%. Mae gan yr uwchbridd, sydd wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog a mân gyda gwreiddiau ffeibrog cyffredin.

3.8 Mae'r isbriddoedd uchaf yn briddglai trwm yn bennaf gyda rhywfaint o briddglai canolig a phriddglai tywodlyd. Mae'r lliw yn debyg i'r uwchbridd neu fel arall yn frowngoch. Mae'r isbridd uchaf ychydig yn garegog, yn frau ac wedi'i ddatblygu'n wan, gyda strwythur o flociau lledonglog canolig. Mae ffin donnog i'r isbridd isaf.

3.9 Mae'r isbridd isaf yn briddglai trwm sy'n frown neu'n frowngoch (5YR5/3, 7.5YR5/3 neu 10YR5/3) gyda rhywfaint o smotiau mewn rhai adrannau. Mae'r isbridd isaf ychydig yn garegog, yn gadarn ac yn parhau i fod wedi'i ddatblygu'n wan, gyda strwythur o flociau lledonglog canolig. Mae pocedi o glai weithiau'n bresennol ar ddyfnder. Mae'r proffiliau'n hydraidd ac maent i gyd wedi'u gosod yn Nosbarth Gwlypter I. Oherwydd y nifer fawr o Ddyddiau Capasiti'r Cae, gydag uwchbridd clai canolig, mae gwlypter a chyfyngiad ymarferoldeb i Radd 2.

3.10 Mesurwyd graddiant y llethrau yn y cau gyda chlinomedr a chroes gyfeiriwyd gyda chynllun Lidar o'r safle. Gan alinio â'r mapio rhagfynegol, mae canol y safle yn gyfyngedig i Radd 4 lle mae'r graddiant yn mesur rhwng 14° a 16°. Naill ochr i'r band hwn, lle mae'r llethrau'n mesur rhwng 7° ac 11°, mae yna gyfyngiad o ran graddiant i Isradd 3b.

3.11 Mae ardaloedd pob gradd Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar y safle wedi'u nodi yn Nhabl 2 a dengys eu dyraniad yn Ffigur RAC/10535/2. Gweler y lluniau a dynnwyd ar y safle yn Atodiad 3.

**Tabl 2:** Dosbarthiad Tir Amaethyddol

| **Graddfa** | **Disgrifiad** | **Hectarau** | **%** |
|---|---|---|---|
| Gradd 2 | Ansawdd da iawn | 8.0 | 53 |
| Is-radd 3b | Ansawdd cymedrol | 5.0 | 33 |
| Gradd 4 | Ansawdd gwael | 2.0 | 13 |
| Tir nad yw'n amaethyddol | | 0.2 | 1 |
| Cyfanswm | | 15.2 | 100 |

[9] **Lliw Munsell (2009).** *Llyfr Lliw Pridd Munsell*. Grand Rapids, MI, UDA

## Appendix 1: Data Labordy

| Yr hyn a fesurir | Twll 1 | Unedau |
|---|---|---|
| Tywod 2.00-0.063 mm | 44 | % w/w |
| Llifwaddod 0.063-0.002 mm | 36 | % w/w |
| Clai <0.002 mm | 20 | % w/w |
| Mater Organig | 3.0 | % w/w |
| Gwead | Priddglai Canolig | |

| Yr hyn a fesurir | Twll 1 | Unedau |
|---|---|---|
| pH y pridd | 6.3 | |
| Ffosfforws (P) | 13.6 | mg/l (av) |
| Potasiwm (K) | 69.7 | mg/l (av) |
| Magnesiwm (Mg) | 32.3 | mg/l (av) |

| Yr hyn a fesurir | Twll 1 | Unedau |
|---|---|---|
| Ffosfforws (P) | 1 | Mynegai ADAS |
| Potasiwm (K) | 1 | Mynegai ADAS |
| Magnesiwm (Mg) | 1 | Mynegai ADAS |

## Gwead Pridd drwy Ddadansoddiad o Faint y Gronynnau




## Dosbarth Mater Organig



# Appendix 2: Crynodebau Proffil Pridd a Chyfrifiadau Sychder

Gwneir cyfrifiadau gwlypter yn unol â'r fethodoleg a roddir yn Atodiad 3 canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd 1988.
Gwneir cyfrifiadau sychder yn unol â'r fethodoleg a roddir yn Atodiad 4 canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd 1988.
Caiff graddau eu dangos ar gyfer sychder, gwlypter ac unrhyw ffactorau eraill yn ymwneud â'r pridd neu'r safle sy'n berthnasol. Gosodir y Raddfa gyffredinol yn ôl y ffactor sy'n cyfyngu fwyaf a dangosir hyn ar y dde.

| **Mathau o gerrig** | | |
|---|---|---|
| % | TAv | EAv |
| caled | 1 | 0.5 |
| . | | |
| caled | cerrig fflint a cherrig mân | |

| **Data Hinsawdd** | |
|---|---|
| MDgwenith | 88 |
| MDtatws | 74 |
| Dyddiau Capasiti'r Cae | 191 |

| **Canllawiau Dosbarth Gwlypter** | *II* | *III* | *IV* | *V* |
|---|---|---|---|---|
| SPL o fewn 80cm, gleio o fewn 40cm | | >51cm | <51cm | |
| SPL o fewn 80cm, gleio ar 40-70cm | >69cm | <69cm | | |
| Dim SPL ond gleio o fewn 40cm | isbridd garw | *I* | achosion eraill | *II* |

Mae uchafswm dyfnder y treiddiad taradr wedi ei danlinellu

| Safle Rhif. | | Dyfnder cm | | Gwead | $CaCO_3$ | Lliw | Smotiau lliw | niferus-sylwedd | %carreg caled | %carreg . | Strwythur-ure | AP gwenith mm | AP tatws mm | Clai glas | SPL | WC | Gwlypter graddfa WE | Terfynol Graddfa | Cyfyngu Ffactor(au) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | T | 0 | 40 | mCL | | 10YR4/3 | | | 5 | | - | 68 | 68 | n | n | *I* | 2 | **3b** | GR |
| | | 40 | 120 | hCL | | | | | 10 | | | 78 | 43 | n | n | | | | |
| | | | | | | | | | | | Cyfanswm | **146** | **112** | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | MB | 58 | 38 | | carreg wedi atal y taradr ar 40cm | | | | |
| | | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | | 1 | 1 | | graddiant 6° | | | | |
| **2** | T | 0 | 40 | mCL | | 7.5YR3/4 | | | | | | 72 | 72 | n | n | *I* | 2 | **2** | WE |
| | | 40 | 50 | hCL | | 7.5YR3/4 | Mn | ychydig | 5 | | | 15 | 15 | n | n | | | | |
| | | 50 | 60 | hCL | | 10YR5/3 | Och | com | 5 | | | 10 | 15 | y | n | | | | |
| | | 60 | 120 | hCL | | | | | 10 | | | 55 | 14 | n | n | | | | |
| | | | | | | | | | | | Cyfanswm | **151** | **117** | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | MB | 63 | 43 | | wedi tyllu hyd at garreg ar 60cm; ° | | | | |
| | | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | | 1 | 1 | | | | | | |
| **3** | T | 0 | 40 | mCL | | 7.5YR3/3 | | | 5 | | | 68 | 68 | n | n | *I* | 2 | **2** | WE |
| | | 40 | 45 | mCL | | 7.5YR3/3 | | | 5 | | | 8 | 8 | n | n | | | | |
| | | 45 | 55 | hCL | | 5YR4/3 | | | 5 | | | 12 | 15 | n | n | | | | |
| | | 55 | 120 | hCL | | | | | | | | 65 | 24 | n | n | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **153** | **115** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 65 | 41 | | wedi tyllu hyd at garreg ar 55cm; ° | | | | | |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | graddiant 6˚ | | | | | |
| **4** | T | 0 | 40 | mCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **3b** | GR | |
| | | 40 | 90 | SCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 52 | 43 | n | n | | | | | |
| | | 90 | <u>100</u> | hCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 10 | 0 | n | n | | | | | |
| | | 100 | 120 | hCL | 5YR4/3 | | | | | 20 | 0 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **150** | **111** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 62 | 37 | | graddiant hyd at 11˚ ° | | | | | |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | graddiant i lawr at yr adeiladau 10˚ | | | | | |
| **5** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR4/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **3b** | GR | |
| | | 40 | <u>50</u> | mCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 15 | 15 | n | n | | | | | |
| | | 50 | 100 | hCL | | | | 10 | | 46 | 29 | n | n | | | | | |
| | | 100 | 120 | hCL | | | | | | 20 | 0 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **149** | **112** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 61 | 38 | | graddiant i fyny 8˚ ° | | | | | |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | graddiant i lawr i 10˚ | | | | | |
| **6** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR4/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **3b** | GR | |
| | | 40 | <u>45</u> | mCL | 7.5YR3/3 | Mn | ychydig | 5 | | 8 | 8 | n | n | | | | | |
| | | 45 | 100 | hCL | | | | 10 | | 53 | 36 | n | n | | | | | |
| | | 100 | 120 | hCL | | | | | | 20 | 0 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **149** | **112** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 61 | 42 | | graddiant 8/9˚ | | | | | |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | anodd tyllu'n is na charreg ar 45cm | | | | | |
| **7** | T | 0 | 35 | mCL | 7.5YR4/3 | | | 5 | | 60 | 60 | n | n | / | 2 | **2** | WE | |
| | | 35 | 40 | mCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 8 | 8 | n | n | | | | | |
| | | 40 | <u>50</u> | hCL | 5YR5/3 | Mn | com | 5 | | 15 | 15 | y | n | | | | | |
| | | 50 | 120 | hCL | | | | | | 70 | 32 | n | n | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **153** | **115** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 65 | 41 | | | | | | | ° |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | | | | | | carreg wedi atal y taradr ar 50cm |
| **8** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR4/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **2** | WE | |
| | | 40 | 45 | mCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 8 | 8 | n | n | | | | | |
| | | 45 | 80 | hCL | 5YR5/3 | Mn | occ | 5 | | 36 | 38 | y | n | | | | | |
| | | 80 | 120 | hCL | | | | | | 40 | 0 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **152** | **114** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 64 | 40 | | | | | | | ° |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | | | | | | carreg wedi atal y taradr ar 80cm |
| **9** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR3/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **3b** | GR | |
| | | 40 | 60 | mCL | 7.5YR4/3 | | | 5 | | 25 | 30 | n | n | | | | | |
| | | 60 | 120 | HCl | | | | 5 | | 57 | 15 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **150** | **114** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 62 | 40 | | | | | | | ° |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | | | | | | anodd tyllu 60cm - cerrig bach |
| **10** | T | 0 | 30 | mCL | 7.5YR3/3 | | | 5 | | 51 | 51 | n | n | / | 2 | **4** | GR | |
| | | 30 | 120 | mCL | | | | 5 | | 97 | 61 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **149** | **112** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 61 | 38 | | | | | | | llethr sych pridd 14-16˚ |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | | | | | | |
| **11** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR3/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **2** | WE | |
| | | 40 | 50 | hCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 15 | 15 | n | n | | | | | |
| | | 50 | 120 | hCL | | | | 10 | | 64 | 29 | n | n | | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **147** | **112** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 59 | 38 | | | | | | | taradr wedi stopio ar 50cm |
| | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | | 1 | 1 | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **12** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR4/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **2** | WE |
| | | 40 | 50 | hCL | 7.5YR5/3 | | | 5 | | 15 | 15 | n | n | | | | |
| | | 50 | 90 | hCL | 7.5YR5/3 | Och | com | 5 | | 38 | 30 | y | n | | | | |
| | | 90 | 120 | hCL | | | | 5 | | 29 | 0 | n | n | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **150** | **114** | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 62 | 40 | | | | | | |
| | | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | 1 | 1 | | | | | | |
| **13** | T | 0 | 40 | mCL | 10YR4/3 | | | 5 | | 68 | Cyfanswm | n | n | / | 2 | **3b** | GR |
| | | 40 | 70 | hCL | 10YR4/4 | | | 5 | | 34 | 46 | n | n | | | | |
| | | 70 | 90 | hCL | 10YR5/3 | Och | com | 5 | | 19 | 0 | y | n | | | | |
| | | 90 | 120 | hCL | | | | 5 | | 29 | 0 | n | n | ° | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **150** | **114** | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 62 | 40 | | | | | | |
| | | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | 1 | 1 | | | | | | |
| **14** | T | 0 | 40 | mCL | 10YR4/3 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **4** | GR |
| | | 40 | 70 | hCL | 10YR4/4 | | | 5 | | 34 | 46 | n | n | | | | |
| | | 70 | 90 | hCL | 10YR5/3 | Och | com | 5 | | 19 | 0 | y | n | | | | |
| | | 90 | 120 | hCL | | | | 5 | | 29 | 0 | n | n | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **150** | **114** | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 62 | 40 | | | | | | |
| | | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | 1 | 1 | | | | | | |

graddiant 7°
llethr i fyny
11°

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **15** | T | 0 | 40 | mCL | 7.5YR4/4 | | | 5 | | 68 | 68 | n | n | / | 2 | **2** | WE |
| | | 40 | 45 | SCL | 5YR4/6 | Mn | com | 5 | | 7 | 7 | n | n | | | | |
| | | 45 | 65 | SCL | 5YR4/3 | | | 5 | | 21 | 29 | n | n | | | | |
| | | 65 | 100 | mS | 5YR4/4 | | | 5 | | 17 | 3 | n | n | | | | |
| | | 100 | 120 | mS | | | | | | 10 | 0 | n | n | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfanswm | **124** | **107** | | | | | | |
| | | | | | | | | | MB | 36 | 33 | | | | | | |
| | | | | | | | | | **Graddfa Sychder** | 1 | 1 | | | | | | |

carreg ar 100cm
pridd llaith ar 100cm

## Appendix 3: Disgrifiad o'r Twll a Lluniau o'r Safle

| **Twll 1** - ger lleoliad arsylwi 6, SH87720 77833, i'r dwyrain o'r gwrych mewn cae gydag arsylwadau 3 a 7, llethr bychan, glaswellt | |
|---|---|
| 0-40 cm | Priddglai canolig, 7.5YR 3/3, wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog a mân, gwreiddiau ffeibrog cyffredin, cynnwys carreg uwchbridd 3% >2cm 2%, >6cm 0% cerrig caled crwn |
| 40-60 cm | Priddglai trwm, 7.5YR 4/3, wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog canolig, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, brau, cynnwys carreg 3% cerrig caled crwn bach, ffin donnog (dyfnder amrywiol 55cm i 70cm) |
| 60-70 cm | Priddglai trwm, 7.5YR5/3, wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog canolig, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, cadarn, cynnwys carreg 5% cerrig caled crwn bach |
| 70- 100 cm | Priddglai trwm, 7.5YR5/3, rhai smotiau melyn, pocedi o glai yn bresennol. |
| | Dosbarth Gwlypter I, Gradd 2 |


Twll 1


Golygfa o'r safle tuag at leoliad arsylwi 3


Strwythur yr isbridd (50cm+)